

“Ysbrydoli Ffermwyr i Warchod Priddoedd”

Newyddlen 1

Croeso i newyddlen gyntaf y cynllun PROSOILplus. Yn y newyddlen hon, cewch grynodedb o gyfarfodydd Grwpiau Datblygu Rhanbarthol y gwanwyn.

Mae gweithgaredd PROSOILplus yn canolbwyntio ar un o'n chwe Fferm Ymchwil Gyfranogol yng Nghymru.



Mwy am hynny yn ein newyddlen nesaf!

Cynhaliwyd cyfarfodydd o amgylch Cymru yn y gwanwyn, yn tynnu ynghyd bobl sydd â diddordeb yn iechyd pridd a rheoli pridd i gynnal trafodaeth gyda'r nos. Byddwn yn eich hysbysu am unrhyw gyfarfodydd a gynhelir yn eich ardal yn y dyfodol.

Thema'r cyfarfodydd hyn oedd **calch a phwysigrwydd pH pridd**. Ceir atebion isod i rai o'r cwestiynau cyffredin a gododd yn y cyfarfodydd.

Q: A yw taenu calch yn effeithio ar boblogaethau pryfed genwair? A yw'n wir mai dim ond cyfraddau isel o galch y dylid ei daenu i osgoi lladd pryfed genwair?

A: *Hydoddedd isel iawn sydd gan galchfaen, a does dim effeithiau niweidiol ar bryfed genwair – nid oes gennym dystiolaeth ymchwil i awgrymu effaith niweidiol ar boblogaethau pryfed genwair.*

Q: Pa gynnyrch sydd ar gael i niwtraleiddio priddoedd alcaliaidd? O dybio bod priddoedd tra alcaliaidd fel arfer angen eu dyfrhau ar gyfer cynhyrchu amaethyddol, dros amser, i ba raddau y gwnaiff hynny leihau'r pH?

A: *Bydd dyfrhau a glaw yn lleihau pH yn raddol dros amser, ac mae pobl yn ychwanegu sylffwr sydd yn asideiddio, a chynhyrchion eraill, megis Halwynau Haearn ac Alwminiwm. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur yr effaith asideiddio'n gywir, oherwydd effaith byffer y pridd. Bydd gwrteithiau hefyd yn asideiddio'r pridd ymhen amser.*

Q: Sut mae cyfrifo faint o galch sydd ei angen?

A: *Ceir manylion yn y llawlyfr RB209 sydd ar gael ar-lein, yn Rhan 1 (tudalen 13)*

<https://ahdb.org.uk/knowledge-library/rb209-section-1-principles-of-nutrient-management-and-fertiliser-use>

I amcangyfrif y gyfradd argymelledig o galch (mewn t/ha o galchfaen mâl), lluoswch y ffactor calchu ar gyfer pob cyfuniad o fath o bridd a defnydd tir gyda'r gwahaniaeth rhwng y pH cychwynnol (a fesurwyd) a'r pH targed, e.e.

Ar lôm silt, 7 yw'r ffactor ar gyfer tir âr, felly $7 \times (6.5-5.9) = 4.2\text{t/ha}$ o galchfaen mâl

Ar lôm glai, 6 yw'r ffactor ar gyfer glaswelltir, felly $6 \times (6.2-5.9) = 1.8\text{t/ha}$ o galchfaen mâl

I gynnal pH, bydd angen taeniad o rhwng 2t/ha a 5t/ha o galchfaen mâl bob 4 blynedd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r amrediad o galch y mae angen ei daenu i wrthweithio amrywiol senarios:

I wrthweithio:	Pwysau'r CaCO ₃ i'w daenu
Gwrteithiau sy'n ffurfio asid	0-250 kg/ha
Dilead cation basig mewn cnydau a gynaeafwyd	50-250 kg/ha
Niwtraleiddio CO ₂ sy'n ffurfio asid mewn dŵr a thrwytholchi – mae'n amrywio yn ôl hinsawdd, carbonadau rhydd ac adeiledd	100-1000 kg/ha
Niwtraleiddio gwaddodiad asid (“glaw asid”)	20 -100 kg/ha

Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau darllen y newyddlen gyntaf hon ac edrychwn ymlaen at roi crynodeb o weithgareddau Ffermydd Ymchwil Gyfranogol yn ein rhifyn nesaf. Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan www.prosoil.cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, gallwch anfon ebost at Jan Newman: jln@aber.ac.uk